# LEFEL 3 TYSTYSGRIF / DIPLOMA

4463N60-1A

S19-4463N60-1A

# GWYDDOR FEDDYGOL

**Uned 6 (Cyflyrau Meddygol)**

*I'w defnyddio gydag arholiad*

***Uned 6 Astudiaeth Achos Feddygol***

**Erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i'w defnyddio yn yr arholiadau canlynol ar 23 Mai 2019**

**Lefel 3 Diploma mewn Gwyddor Feddygol**

**Lefel 3 Tystysgrif mewn Gwyddor Feddygol**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Briwiau'r stumog** *(stomach ulcers)*

Doluriau agored sy'n datblygu ar leinin y stumog yw briwiau'r stumog.


**Symptomau briwiau'r stumog**

Symptom mwyaf cyffredin briw'r stumog yw poen sy'n llosgi yng nghanol yr abdomen. Efallai bydd rhai pobl yn profi symptomau eraill, fel diffyg traul, dŵr poeth *(heartburn)* a theimlo'n gyfoglyd *(sick)*. Mae'r poen yn gallu para rhai munudau i rai oriau, ac mae'n aml yn dechrau o fewn ychydig oriau ar ôl bwyta. Mae chwydu gwaed neu basio ysgarthion tywyll, gludiog fel tar yn rhai o gymhlethdodau difrifol y cyflwr.

**Beth sy'n achosi briwiau'r stumog**

Bacteriwm o'r enw *Helicobacter pylori (H. pylori)* sy'n achosi briwiau'r stumog fel arfer. Mae'r bacteriwm hwn yn gallu torri drwy amddiffyniad y stumog yn erbyn asid, sy'n golygu bod leinin y stumog yn cael ei niweidio a bod briw yn ffurfio. Mae heintiau *H. pylori* yn gyffredin, ac maen nhw'n achosi llid ar y leinin sy'n gwneud y leinin yn fwy agored i niwed gan asid y stumog.

Mae cyffuriau gwrthlidiol heb fod yn steroidau *(non-steroidal anti-inflammatory drugs:* NSAID) hefyd yn achosi briwiau'r stumog ond yn llai aml. Mae meddyginiaeth NSAID yn aml yn cael ei defnyddio i drin poen, tymheredd uchel (twymyn) a llid (chwyddo). Mae ibuprofen ac aspirin yn enghreifftiau cyffredin o gyffuriau NSAID.




**Rhoi diagnosis o friwiau'r stumog**

Efallai bydd y meddyg teulu neu'r ysbyty yn argymell un o'r profion canlynol:

- prawf anadl wrea
- prawf antigenau ysgarthion
- prawf gwaed
- gastrosgopi

Bydd y meddyg teulu hefyd eisiau gwybod a yw'r claf yn cymryd cyffuriau NSAID.

**Triniaethau ar gyfer briwiau'r stumog**

Os mai haint *H. pylori* sy'n achosi briw'r stumog, bydd gwrthfiotigau a meddyginiaeth o'r enw atalydd pwmp protonau *(proton pump inhibitor*: PPI) yn cael eu hargymell. Os mai dim ond cymryd cyffuriau NSAID sy'n achosi briw'r stumog, yna dim ond meddyginiaeth PPI sydd ei hangen. Efallai bydd meddyg teulu hefyd yn rhoi presgripsiwn am feddyginiaeth gwrthasid ychwanegol i niwtralu asid y stumog, sy'n lleddfu'r symptomau yn syth, ond dim ond yn y tymor byr.

**Atal briwiau'r stumog**


Mae'n anodd osgoi haint *H. pylori*. Mae hylendid bwyd da, osgoi cynhyrchion tybaco ac alcohol, a bod yn ofalus wrth ddefnyddio cyffuriau NSAID i gyd yn cael eu hargymell.

**Dystroffi Cyhyrol Duchenne (*Duchenne Muscular Dystrophy*: DMD)**

Yn y DU *(UK)*, mae dros 70 000 o bobl yn dioddef o ddystroffi cyhyrol. DMD yw'r math mwyaf cyffredin o ddystroffi cyhyrol. Yn y DU, mae tua 100 o fechgyn yn cael eu geni â DMD bob blwyddyn, ac mae tua 2 500 o bobl yn byw gyda'r cyflwr yn y DU ar unrhyw un adeg.

**Symptomau DMD**

Mae DMD yn gyflwr cynyddol. Mae'n aml yn dechrau drwy effeithio ar un grŵp o gyhyrau, cyn effeithio ar y cyhyrau'n fwy eang. Yn y pen draw, bydd DMD yn effeithio ar y galon gan achosi cardiomyopathi a methiant y galon. Mae hefyd yn effeithio ar y cyhyrau rydyn ni'n eu defnyddio i anadlu, a dyma pryd bydd y cyflwr yn dechrau peryglu bywyd.



Cyhyredd normal iach          Dystroffi cyhyrol

**Beth sy'n achosi DMD**

Mae DMD yn gyflwr genetig, enciliol sy'n gysylltiedig â rhyw. Mae mwtaniad yn digwydd mewn genyn sy'n gyfrifol am adeiledd a gweithrediad cyhyrau'r unigolyn. Mae'r mwtaniad yn achosi newidiadau i'r broses o gynhyrchu protein o'r enw dystroffin. Mae hyn yn effeithio ar ffibrau'r cyhyrau ac felly'n ymyrryd â gallu'r cyhyrau i weithredu.

**Rhoi diagnosis o DMD**

Os oes gan blentyn unrhyw un o symptomau DMD, bydd meddyg teulu yn ei gyfeirio at ysbyty i gael profion. Bydd y diagnosis yn cynnwys rhai o'r canlynol:

- profion gwaed am creatin cinas
- prawf genetig am y genyn DMD
- sgrinio cardiofasgwlar e.e. ECG ac ecocardiograffeg
- profion trydanol ar y nerfau a'r cyhyrau
- biopsi cyhyr

**Triniaethau ar gyfer DMD**

Does dim ffordd o wella DMD, ond mae amrywiaeth o driniaethau yn gallu helpu gyda'r anableddau a'r problemau corfforol sy'n gallu datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cymorth i symud – gan gynnwys ymarfer corff, ffisiotherapi a chymhorthion corfforol *(physical aids)*
- grwpiau cefnogi – i ddelio ag effeithiau ymarferol ac emosiynol DMD
- llawdriniaeth – i gywiro anffurfiadau ymddaliad *(postural deformities)*, fel sgoliosis
- meddyginiaeth – fel steroidau i wella cryfder y cyhyrau, neu atalyddion ACE a beta-atalyddion i drin problemau â'r galon

**Atal DMD**

Mae ymchwil newydd yn edrych ar ffyrdd o atgyweirio'r mwtaniadau genetig a'r niwed i gyhyrau sy'n gysylltiedig â DMD. Mae canlyniadau treialon clinigol wedi bod yn addawol.

**Isthyroidedd (thyroid tanweithgar)**


Mae cyflwr isthyroidedd yn golygu nad yw'r chwarren thyroid yn cynhyrchu digon o'r hormonau triiodothyronin (T3) a thyrocsin (T4). I gynhyrchu T3 a T4, mae angen ïodin.

Mae T3 a T4 yn teithio yn llif y gwaed ac yn gweithredu ar gelloedd i reoli'r gyfradd fetabolaidd. Mae'r chwarren thyroid yn cael ei rheoli gan y chwarren bitwidol, sy'n rhyddhau hormon symbylu'r thyroid *(thyroid stimulating hormone:* TSH).

**Symptomau isthyroidedd**

Mae'r symptomau fel arfer yn datblygu'n araf.
Mae symptomau cyffredin yn cynnwys:

- blinder a chynnydd mewn pwysau
- sensitifrwydd i oerfel
- symud yn araf
- poen a gwendid yn y cyhyrau
- croen sych a chennog *(scaly),* a gwallt ac ewinedd brau *(brittle)*




**Beth sy'n achosi isthyroidedd**

Mae cyflwr o'r enw clefyd Hashimoto yn glefyd awtoimiwn sy'n achosi isthyroidedd.

Mae isthyroidedd yn gallu digwydd fel sgil effaith neu gymhlethdod ar ôl triniaeth ar y chwarren thyroid, fel llawdriniaeth neu therapi ïodin ymbelydrol.

Mae isthyroidedd wedi cael ei gysylltu â rhai heintiau firaol a sgil effeithiau rhai meddyginiaethau, fel lithiwm ac amiodarone, sy'n cael eu defnyddio i drin cyflyrau eraill.

**Rhoi diagnosis o isthyroidedd**

Mae prawf gwaed, o'r enw prawf gweithrediad y thyroid, yn edrych ar lefelau TSH a T4. Gallwn ni ddefnyddio imiwnoadnabod ymbelydrol *(radioimmunoassay*: RIA) i ganfod y lefelau. Mae lefel uchel o TSH a lefel isel o T4 yn gallu bod yn arwydd o thyroid tanweithgar. Os yw canlyniadau'r prawf yn dangos bod TSH yn uchel ond T4 yn normal, mae hyn yn gallu golygu bod y claf mewn perygl o ddatblygu thyroid tanweithgar yn y dyfodol. Efallai bydd y meddyg teulu yn cyfeirio'r claf at endocrinolegydd.

**Triniaethau ar gyfer isthyroidedd**

Mae isthyroidedd fel arfer yn cael ei drin drwy gymryd tabledi amnewid hormonau o'r enw levothyroxine. Fel arfer, mae presgripsiwn am ddos dyddiol rhwng 50 a 200 µg o levothyroxine yn cael ei awgrymu. Mae'r tabledi hyn yn dod mewn pecynnau pothelli *(blister packs)*, cyflenwad 28 diwrnod fel arfer, a bydd y meddyg teulu yn rhoi o leiaf 3 o bob pecyn ym mhob presgripsiwn.

**Atal isthyroidedd**

Does dim ffordd o atal isthyroidedd.